Mae tîm Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn dwyn ynghyd arbenigwyr o brifysgolion, mentrau cymdeithasol, sefydliadau'r trydydd sector, a busnesau i gydweithio i gyflawni ei nodau.

Canfyddiadau o Dwf mewn dwy dref farchnad yng Nghymru

Dr Sophie Bennett Gillison a Dr Ellen Hjort

Nod yr ymchwil hon oedd nodi sut mae twf, o ran busnesau a datblygiad cymunedol, yn cael ei weld gan y rhai sy'n byw ac yn gweithio mewn trefi gwledig yng Nghymru. Defnyddiwyd Llanidloes (y Canolbarth) a Llangefni (y Gogledd) fel astudiaethau achos i archwilio canfyddiadau o dwf a sut mae modd cefnogi menter yn y lleoliadau hyn drwy wella dealltwriaeth o'r hyn y mae twf a datblygiad yn ei olygu i'r rhai sy'n byw yno.

Y darlun sy'n dod i'r amlwg yw mai ychydig iawn o gefnogaeth sydd ymhlith cyfranogwyr tuag at dwf yn yr ystyr traddodiadol o dwf 'i fyny', sef o ran ehangu a chynyddu elw, cynhyrchiant, neu gyrhaeddiad yn y farchnad. Yn hytrach, mae

cymunedau a busnesau bach yn deall twf fel ffyrdd o wella cynaliadwyedd busnes neu ansawdd bywyd. Mewn ardaloedd gwledig yn arbennig, gall entrepreneuriaid ddechrau busnes i alluogi ffordd benodol o fyw (cydbwysedd rhwng gwaith a bywyd) neu oherwydd dymuniad i fod wedi'u lleoli mewn lleoliad penodol, a gall 'twf busnes' confensiynol fod yn llai o flaenoriaeth.

Datgelodd ymchwil ansoddol, gan ddefnyddio arolygon, cyfweiliadau, grwpiau ffocws a gweithdai, sawl persbectif gwahanol ar dwf, a thrwy ddadansoddiad thematig cafodd y rhain eu grwpio'n saith 'math' o dwf, gan gynnwys twf fel adeiladu cymuned, twf trwy gyfle, a thwf sylfaenol.

I gymunedau Llanidloes a Llangefni, roedd twf yn ymwneud â bod yn well yn hytrach nag yn fwy, ac roedd yn ymdrech sy'n gysylltiedig â gwerthoedd fel cymuned, cynaliadwyedd, ffordd o fyw, lle, ac ansawdd bywyd da.

Mae sawl argymhelliad polisi yn deillio o'r dadansoddiad, gan gynnwys teilwra mentrau twf i leoedd penodol, cydnabod manteision economaidd perchnogaeth gymunedol, cefnogi entrepreneuriaeth sy'n seiliedig ar ffordd o fyw, buddsoddi yn yr economi sylfaenol, a mabwysiadu dangosyddion twf sy'n seiliedig ar le.



Gellir lawrlwytho adroddiad y prosiect o wefan Cymru Wledig LPIP Rural Wales.



Menywod ac arallgyfeirio ar ffermydd

Dr Alison Parken, Yr Athro Sara MacBride-Stewart, a Dr Lucy Baker

Mae menywod yn chwarae rhan bwysig mewn amaethyddiaeth gyfoes ac yn enwedig wrth arallgyfeirio gweithgareddau fferm ar gyfer cynaliadwyedd ariannol. Fodd bynnag, nid yw'r effeithiau uniongyrchol ac anuniongyrchol ar fenywod, a'r effeithiau felly sy'n cael eu creu gan fenywod, yng nghyswllt arallgyfeirio ar ffermydd a sut mae'r rhain yn croestorri â pholisi, yn cael eu deall yn llawn. Felly, nod yr astudiaeth hon oedd archwilio'r rolau a'r gweithgareddau a

ymgymerir gan fenywod mewn arallgyfeirio ar ffermydd, gan gynnwys y rhai sy'n mynd i'r afael â heriau amgylcheddol, a sut mae menywod yn meithrin ac yn rhannu gwybodaeth ac adnoddau ar gyfer arallgyfeirio.

Roedd yr ymchwil yn cynnwys cyfweiliadau gyda 29 o fenywod sy'n weithgar yn arallgyfeirio ffermydd yng Nghymru, rhai ohonynt hefyd yn cynrychioli sefydliadau ffermio. Dywedodd bron pob un o'r menywod eu bod yn ymwneud ag

arallgyfeirio, ond nid oedd pob un ohonynt yn nodi eu hunain fel ffermwyr. Roedd gweithgareddau arallgyfeirio hunan-ddiffiniedig yn eang, ac yn cynnwys mathau o weithgareddau economaidd ar y fferm ac oddi ar y fferm. Prif nod arallgyfeirio oedd sicrhau goroesiad economaidd y fferm, a oedd yn cynnwys yr elfennau amaethyddol a busnes, ond hefyd y bobl, yr anifeiliaid a'r natur a oedd yn byw yno.

Canolbwyntiodd ein dadansoddiad cychwynnol ar effeithiau polisïau, ac ystod o ystyriaethau fel llafur, amser, sgiliau a chyfrifoldebau menywod. Mae arferion a rolau menywod sy'n dod i'r amlwg gryfaf yn adlewyrchu agweddau ar arallgyfeirio economaidd a gefnogir gan grantiau a pholisïau lleol ar y cyfan. Mae dadansoddiad rhywedd yn datgelu'r costau cynyddol ar lafur ac amser menywod, gyda newidiadau mewn penderfyniadau ynghylch arallgyfeirio yn adlewyrchu'r mathau o gefnogaeth a mentora sydd ar gael gan Lywodraeth Cymru a sefydliadau ffermio eraill.

Mae'r astudiaeth yn tynnu sylw at yr angen am bolisïau amaethyddiaeth a datblygu gwledig mwy sensitif i leoedd yng Nghymru sy'n adlewyrchu'r cyd-destunau daearyddol gwahanol lle ceisir arallgyfeirio ffermydd, yn ogystal â pholisïau sy'n cydnabod cyfraniadau penodol entrepreneuriaid benywaidd mewn arallgyfeirio ffermydd a'r heriau y maent yn eu hwynebu.



Bydd adroddiad y prosiect ar gael ar wefan Cymru Wledig LPIP Rural Wales o haf 2025 ymlaen.





Sero Net, ennill net: dadbacio cydfanteision gweithredu ar yr hinsawdd

Dr Sophie Wynne-Jones, Dr Elen Bonner
a Dr Siobhan Maderson

Er bod llawer o awdurdodau lleol a sefydliadau'r sector cyhoeddus wedi ymrwymo i fynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd trwy ymdrechion i gyflawni Sero Net, maent hefyd yn wynebu heriau economaidd a'r angen i gyflawni blaenoriaethau amgylcheddol, cymdeithasol, diwylliannol, ac economaidd eraill. Hyd yn hyn, mae ymatebion gwyddoniaeth a pholisi wedi gweithredu

mewn seilos yn aml, gan gyfyngu'r potensial ar gyfer atebion integredig i heriau lluosog, rhyng-gysylltiedig.

Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn gosod cynsail pwerus ar gyfer meddwl yn gydlynol, ac mae momentwm yn tyfu y tu ôl i ddulliau systemau cyfan sy'n cydnabod y rhyng-gysylltiadau cymhleth sy'n

gynhenid i weithredu ar yr hinsawdd. Mae'r prosiect Cydfanteision Sero Net yn adeiladu ar y sylfaen hon, gan ganolbwyntio ar Gymru Wledig i archwilio sut y gall ymdrechion Sero Net gynhyrchu manteision lluosog sy'n ategu ei gilydd. Ei nod yw nodi camau gweithredu 'aml-ateb' sy'n mynd i'r afael ag allyriadau nwyon tŷ gwydr yn ogystal â heriau economaidd-gymdeithasol ac amgylcheddol ehangach, ac archwilio'r amodau sy'n galluogi dulliau o'r fath, gan sicrhau bod camau gweithredu hinsawdd yn cefnogi pontio cyfiawn a chynhwysol.

Bydd yr ymchwil yn datblygu map systemau i ddelweddu'r gofod cyfleoedd ar gyfer Sero Net yng nghefn gwlad Cymru, gan nodi blaenoriaethau allweddol, cyd-ddibyniaethau, a chyfaddawdau'r gorffennol o ran allyriadau. Bydd synthesis llenyddiaeth yn tynnu sylw at feysydd gweithredadwy ac yn nodi astudiaethau achos perthnasol. Bydd cyfweiliadau ansoddol yn cael eu cynnal gydag ymarferwyr a gwneuthurwyr polisi sydd â phrofiad o gyflawni neu gefnogi mentrau Sero Net sydd hefyd yn darparu cydfanteision. Bydd y sgwrsiau hyn yn darparu gwybodaeth ymarferol am amodau galluogi, heriau sy'n cael eu hwynebu, a blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn y dyfodol.

Bydd y prosiect hwn yn darparu arweiniad i wneuthurwyr polisi, ymarferwyr a chymunedau ar sut i weithredu ar yr hinsawdd a datglo cydfanteision, a thrwy hynny ddarparu buddion parhaol i genedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Defnydd, rheoli a photensial mannau cymunedol gwledig

Yr Athro Michael Woods a Dr Lucy Baker

Mae mannau cymunedol yn rhannau pwysig o fywyd mewn cymunedau gwledig, o neuaddau pentref i gaeau chwarae a rhandiroedd.

Eto, mae llawer yn cael trafferth gyda chyllid a chynnal a chadw, ac mae llawer ohonynt yn asedau nad ydynt yn cael eu defnyddio ddigon y gallid eu defnyddio i gefnogi gwydnwch cymdeithasol ac amgylcheddol. Mae'r astudiaeth hon yn adeiladu ar Arolwg Cymunedol Cymru Wledig LPIP Rural Wales (gweler tudalen 6), i archwilio sut mae mannau cymunedol gwledig yn cael eu defnyddio, sut maent yn cael eu rheoli, a sut y gallir gwneud y mwyaf o'u manteision i'r gymuned.

Mae ymchwil ar y we, cyfweiliadau ar-lein ac astudiaethau achos yn cael eu defnyddio i nodi enghreifftiau o arfer dda, y gallir tynnu gwersi ohonynt i ddatblygu argymhellion ar gyfer polisi. Mae sylw arbennig yn cael ei roi i fodolau perchnogaeth gymunedol o asedau allweddol; ymgorffori mannau cymunedol mewn prosiectau ynni cymunedol a phrosiectau amgylcheddol; a datblygu canolfannau cymunedol amlbwrsas sy'n darparu mynediad at wasanaethau ac adnoddau cyhoeddus.



Bwyd a llesiant cymunedol yng nghefn gwlad Cymru

Yr Athro Paul Milbourne a Dr Ellen Hjort

Mae llawer o'r ymchwil a'r data ar fwyd gwledig wedi canolbwyntio ar y system bwyd-amaeth brif ffrwd, tra bod astudiaethau o agweddau cymunedol a llesiant ar fwyd wedi cael eu cynnal i raddau helaeth mewn mannau trefol. O ganlyniad mae bwlbh tystiolaeth mewn perthynas ag elfennau cymunedol, lles a llesiant mewn perthynas â bwyd mewn ardaloedd gwledig. Nod y prosiect hwn yw cau'r bwlbh hwn drwy archwilio bwyd a llesiant cymunedol yng nghefn gwlad Cymru.

Mae'r prosiect yn cynnwys pedwar cam o waith. Yn y cyntaf, bydd llenyddiaeth academaidd a llwyd bresennol ar fwyd a llesiant cymunedol yn cael ei hadolygu, a data sydd ar gael ar annioegeidd bwyd, cymorth bwyd, ac iechyd

yng nghefn gwlad Cymru yn cael ei ddadansoddi. Bydd gwaith cam dau yn defnyddio dadansoddiadau GIS i gynhyrchu data a mapiau newydd ar hygyrchedd bwyd ar draws Cymru Wledig. Yng nghanm tri, cynhelir cyfweiliadau gyda sefydliadau a phrosiectau sy'n gweithio ar faterion bwyd cymunedol a llesiant yng nghefn gwlad Cymru, gan roi sylw arbennig i faterion diffyg maeth, tlodi, ac unigrwydd cymdeithasol. Yn olaf, bydd ymchwil fanwl yn cael ei chynnal ar fwyd a llesiant cymunedol mewn nifer fach o siroedd gwledig i archwilio eu bwydweddau lleol. Bydd hyn yn cynnwys gweithio gyda phartneriaethau bwyd lleol, awdurdodau lleol, byrddau iechyd, prosiectau bwyd cymunedol, a grwpiau cyngor a chymorth bwyd.

Deall a chefnogi llesiant diwylliannol yng nghefn gwlad Cymru – gweithgareddau diwylliannol ar lawr gwlad

Dr Eifiona Thomas Lane, Dr Elen Bonner a Sean Martin



Cymru yw'r unig wlad yn y byd i gydnabod llesiant diwylliannol fel rhan o'i diffiniad statudol o ddatblygu cynaliadwy. Er bod hyn yn rhoi Cymru mewn sefyllfa unigryw, mae pryderon wedi cael eu mynegi am gyflwr presennol diwylliant, sy'n enbyd yn ôl rhai. O fewn hinsawdd economaidd heriol, nid yw diwylliant bob amser yn cael ei flaenoriaethu, ac mae nodau llesiant diwylliannol yn aml yn cael llai o sylw strategol o fewn Cynlluniau Llesiant Lleol o'i gymharu â thargedau eraill. O ganlyniad, mae cyrff

cyhoeddus wedi cael eu beirniadu am fethu â dangos camau gweithredu clir mewn perthynas â'u hamcanion llesiant diwylliannol.

Mae'r ymchwil hon yn mynd i'r afael â'r materion hyn mewn cyd-destun gwledig lle, oherwydd newidiadau strwythurol, mae'r heriau i ddiwylliant hyd yn oed yn fwy cymhleth. Mae cymunedau gwledig yn ymfalchïo yng nghryfder a bywiogrwydd eu diwylliant sy'n cael ei adlewyrchu yn y cymdeithasau niferus, eisteddfodau, Clybiau Ffermwyr Ifanc, sioeau a

chyngherddau lleol. Fodd bynnag, ceir canfyddiad bod gweithgareddau diwylliannol gwledig ar lawr gwlad yn aml yn 'anweledig' ac yn cael eu tangynrychioli o fewn trafodaethau polisi. Nod y gwaith hwn yw tynnu sylw at y gweithgareddau diwylliannol sy'n bwysig i gymunedau gwledig ac archwilio sut y gellir eu cefnogi'n fwy effeithiol trwy Gynlluniau Llesiant Lleol. Ochr yn ochr ag adroddiad ysgrifenedig, bydd allbwn creadigol ar ffurf ffilm hefyd yn cael ei gynhyrchu gan unigolyn creadigol ifanc.

Cryfhau data ar gyfer llunio polisïau

Pa mor wydn yw cymunedau Cymru?

Dr Lucy Baker a Dr Ellen Hjort

Mae Cymru Wledig LPIP Rural Wales wedi bod yn casglu tystiolaeth ar wydnwch cymunedau lleol drwy arolwg a anfonwyd at Glercod Cyngorau Cymuned a Thref, mewn cydweithrediad ag Un Llais Cymru. Holwyd cyngorau am bynciau fel asedau cymunedol a pherchnogaeth gymunedol, gweithgareddau cymdeithasol a gwirfoddol, ynni cymunedol a gweithredoedd sero net, mynediad at fwyd ac adnoddau eraill, cynllunio at y dyfodol, a chynhwysiant ac ymgysylltu mewn perthynas â gwneud penderfyniadau cymunedol.

Mae'r 161 o ymatebion a ddaeth i law gan gynghorau ym mhob rhan o Gymru yn rhoi cipolwg ar yr hyn sy'n digwydd mewn cymunedau lleol a'r ffyrdd y mae Cyngorau Cymuned a Thref yn gweithio i gryfhau gwydnwch cymunedol yn wyneb ansicrwydd cymdeithasol, economaidd, ac amgylcheddol. Dyma rai o'r uchafbwyntiau.

Mae cymunedau'n dod yn berchen ar asedau lleol.

Mae perchnogaeth gymunedol wedi cael ei hyrwyddo fel ateb pan nad yw awdurdodau lleol yn gallu parhau i ddarparu gwasanaethau cyhoeddus neu gyfleusterau, neu pan mae gwasanaethau masnachol yn cau. Roedd ychydig dros hanner y cymunedau a ymatebodd wedi perchenogi neu ddechrau rheoli asedau allweddol yn ystod y 5 mlynedd diwethaf, yn fwyaf cyffredin:



Meinciau
neu seddi
30%



Gwelyau
blodau
22%



Meysydd
chwarae
a chaeau
hamdden
19%



Arosfannau
bysiau
15%



Toileddau
cyhoeddus
11%

Roedd rhai wedi ysgwyddo cyfrifoldeb am:



Siopau
4%



Swyddfeydd
post
2.5%



Caffis
3%



Tafarndai
1%



Llyfrgelloedd
1%

Mae'r mwyafrif o gynlluniau perchnogaeth gymunedol yn cynnwys Cyngorau Cymuned neu Dref, weithiau trwy gydberchnogaeth gyda phartneriaid, ond mae sefydliadau cymunedol eraill, ymddiriedolaethau, mentrau cymdeithasol, a busnesau sy'n eiddo i'r gymuned hefyd yn weithredol. Y prif rwystr i gynyddu perchnogaeth gymunedol yw cyllid.

Mae mynediad at fwyd a gynhyrchir yn lleol yn amrywiol.

Mae yna gyfleoedd i drigolion brynu neu gael bwyd a dyfir neu a gynhyrchir yn lleol mewn tua thri chwarter o'r cymunedau a arolygwyd, ond mae'r fformat yn amrywio. Mae gan ddwy ym mhob pump gerddi cymunedol lle mae bwyd yn cael ei dyfu, ac mae gan tua chwarter gynlluniau bocsys bwyd. Mae siopau fferm neu beiriannau gwerthu nwyddau fferm mewn 24% o gymunedau a chynnyrch lleol yn cael ei werthu ar ochr y ffordd mewn 20%, gyda llai o gymunedau yn adrodd marchnad ffermwyr (12%) neu brosiect amaethyddol a gefnogir gan y gymuned (11%).



Siopau fferm/
peiriannau gwerthu
nwyddau fferm
24%



Marchnad
ffermwyr
12%




Gwerthu ar
ochr y ffordd
20%




Prosiect amaethyddol
a gefnogir gan y
gymuned
11%

Mae'n bosibl dod o hyd i adeiladwr ym mron pob cymuned, ond nid oes modd cael beic wedi'i drwsio.




Gofynnodd yr arolwg am bresenoldeb busnesau yn y gymuned sy'n darparu ystod o wasanaethau sylfaenol ar gyfer bywyd bob dydd. Mae gwasanaethau adeiladu (gan gynnwys adeiladwyr, seiri, trydanwyr a phlymwyr) ar gael mewn 94% o'r cymunedau a ymatebodd, gyda gwasanaethau garddio mewn 90%, a gwasanaethau cynnal a chadw eiddo mewn 87%. Gellir atgyweirio cerbydau mewn 65% o gymunedau, ond dim ond mewn 18% ohonynt y gellir trwsio beic. Gellir dod o hyd i feithrinfeydd plant mewn 55% o gymunedau, a darparwyr gofal plant mewn nifer debyg. Mae yna fushesau sy'n darparu gwasanaethau TG mewn 54% o gymunedau, a gwasanaethau arlwyio ar gyfer digwyddiadau mewn 55%, yn ogystal â thrinwyr gwallt mewn 59%, a gwasanaethau tacsï mewn 42%, ond dim ond mewn un o bob deg o'r cymunedau y mae'n bosibl llogi cerbyd.

Mae banciau bwyd mewn dwy o bob pum cymuned.



Mae gan lawer o'r cymunedau a ymatebodd wasanaethau a gweithgareddau sy'n ceisio cefnogi'r rhai mewn angen. Yn ogystal â banciau bwyd (a ganfuwyd mewn 40%), mae gan 30% wasanaeth casglu/dosbarthu presgripsiynau, mae gan 22% wasanaeth dosbarthu siopa bwyd dan ofal gwirfoddolwyr, ac mae cynlluniau sy'n cynnig prydau bwyd am ddim neu am gost isel mewn 22% ohonynt. Mae caffis atgyweirio, neu fentrau uwchgylchu tebyg, yn bresennol mewn un rhan o bump o gymunedau, a chynlluniau benthyca (fel llyfrgelloedd teganau) mewn 15%. Yn ogystal, mae 16% o neuaddau cymunedol ar agor fel 'mannau cynnes'.

Mae tua dwy ran o dair o'r Cyngorau Cymuned a Thref a holwyd wedi gweithredu camau er budd yr amgylchedd.



Mae 15% arall yn ystyried cymryd un neu fwy o gamau. Mae'r camau gweithredu mwyaf cyffredin yn cynnwys prosiectau gwarchod neu adfer natur (43%), lleihau torri gwair (40%), a mesurau effeithlonrwydd ynni mewn eiddo (22%). Mae un o bob chwech wedi newid i gyflenwr ynni gwyrdd ac mae 8% wedi gosod pwyntiau gwefru ar gyfer cerbydau trydan. Mae un o bob chwech wedi datgan 'Argyfwng Hinsawdd'. Mae gan tua un o bob pump o'r cymunedau gynllun ynni cymunedol (rhai yn cynnwys y cyngor, eraill ddim), yn fwyaf cyffredin gyda phaneli solar neu dyrbinau gwynt.



Gwneud data'n hygyrch – Hwb Data Cymru Wledig

Yr Athro Scott Orford

Bydd Hwb Data Cymru Wledig yn gwella mynediad at ddata ar gyfer gwneuthurwyr polisi, ymarferwyr a defnyddwyr eraill, drwy weithredu fel porth i setiau data presennol ar gyfer Cymru Wledig ac i ddata newydd a gynhyrchir gan Cymru Wledig LPIP Rural Wales. Bydd yr Hwb, sy'n cael ei adeiladu ar gyfer Cymru Wledig LPIP Rural Wales gan Dîm Data WISERD, yn cynnwys dangosfyrddau a rhyngwynebau mapio a fydd yn caniatáu i ddefnyddwyr ddarganfod, llywio, archwilio, a rhyngweithio ag ystod eang o ddata sy'n berthnasol i bolisiâu economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol, a diwylliannol.

Mae fersiwn gynnar o ddangosfwrdd rhyngweithiol ar hygyrchedd yng nghefn gwlad Cymru yn seiliedig ar ddefnyddio gwahanol ddulliau trafnidiaeth eisoes wedi'i ddatblygu ac mae'n caniatáu i ddefnyddwyr archwilio'r cymysgedd o nwyddau a gwasanaethau sydd ar gael ar gyfer gwahanol gymunedau yng nghefn gwlad Cymru. Bydd gwaith yn y maes hwn hefyd yn cynnwys mapio asedau cymunedol lleol yn seiliedig ar waith a wnaed gyda Gyda'n Gilydd dros Newid yn Sir Benfro, a'r gwaith sy'n cael ei wneud yn Ynys Môn o amgylch prosiect adfywio pum tref y Cyngor Sir.

Arolygon sydd i ddod

Drwy gydol haf 2025, mae Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn cynnal **Arolwg Troseddau Ffermio a Gwledig** mewn cydweithrediad â'r pedwar lluoedd heddlu yng Nghymru. Gan adeiladu ar arolygon blaenorol o droseddau gwledig a gynhaliwyd gan Dr Wyn Morris a Dr Gareth Norris ym Mhrifysgol Aberystwyth, nod yr arolwg yw cofnodi'r cynnydd a wnaed wrth fynd i'r afael â materion allweddol ar ganfyddiadau cymunedol o droseddau ffermio a gwledig. Bydd cyfranogwyr yn ateb cwestiynau ar ddwyn o ffermydd a difrod i ffermydd, troseddau mewn cymunedau gwledig, troseddau bywyd gwyllt ac amgylcheddol, ac effaith troseddau ar bobl a llesiant.

Bydd **Arolwg Busnes** Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn cael ei gynnal yn hydref 2025 i ganfod sefyllfa busnesau bach a chanolig yng nghefn gwlad Cymru. Wedi'i gynnal ar y cyd ag Antur Cymru, a chyda'r holiadur wedi'i gynllunio ar y cyd â rhanddeiliaid gan gynnwys Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, a chymdeithasau busnes, bydd yr arolwg yn diweddarau'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer polisi o Arolwg Busnes Arsyllfa Wledig Cymru diwethaf yn 2013.



Labordai Arloesedd – datgloi llwybrau i newid

Rachel Tuckett, Dr Ruth Stevenson, Dr Siobhan Maderson, Amie Andrews, Dr Matt Reed, Dr Aimee Morse, Yr Athro James Lewis, Dr Huw Lewis, Dr Owain Lewis

Mae cyflawni newid yn anodd. Mae rhwystrau yn llesteirio'r gallu i gytuno ar bolisiau arloesol sy'n mynd i'r afael â'r heriau mawr sy'n wynebu Cymru Wledig, a gweithredu'r polisiau hynny. Mae Labordai Arloesedd Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn gweithio i ddod o hyd i atebion newydd i oresgyn y rhwystrau hyn a datgloi newidiadau a fydd yn gwella cynaliadwyedd a llesiant y rhanbarth.

Mae Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn cynnal pedwar Labordy Arloesedd cyfochrog, un sy'n canolbwyntio ar bob un o themâu'r LPIP. Mae'r heriau y mae pob Labordy'n mynd i'r afael â nhw wedi'u dewis gan arbenigwyr a rhanddeiliaid yn y Grwpiau Themateg priodol fel meysydd polisi sydd angen syniadau arloesol.

Mae pob Labordy Arloesedd yn dwyn ynghyd gyfranogwyr gwahoddedig o'r sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector. Trwy gyfres o weithdai yn ystod haf 2025 maent yn gweithio ar nodi amcanion dymunol, trafod rhwystrau i newid, ac archwilio atebion arloesol i oresgyn rhwystrau. Bydd un neu fwy o ymyriadau a awgrymir o bob Labordy yn cael eu dewis i'w profi mewn lleoliad go iawn gyda phartner dros gyfnod o 12 mis hyd at hydref 2026.

Mae'r Labordai Arloesedd yn cael eu hwyluso gan dîm sy'n tynnu ar brofiad ac arbenigedd o Labordy Arloesedd Prydain Di-garbon y Ganolfan Technoleg Amgen, y Ganolfan Arloesi Genedlaethol ar gyfer Mentrau Gwledig yn y Sefydliad Ymchwil Cefn Gwlad a Chymunedol ym Mhrifysgol Swydd Gaerloyw, ac yr hen Y Lab ym Mhrifysgol Caerdydd.

Heriau'r Labordy Arloesedd

Cymru lle mae garddwriaeth sero net sy'n gyfeillgar i natur yn cael ei chefnogi a'i gwobrwyo

Adeiladu cartrefi, hapusrwydd a chymuned yng nghefn gwlad Cymru: mynd i'r afael â'r diffyg llafur ar draws y diwydiant adeiladu

Cymru Wledig lle mae cyfleoedd i dyfu, coginio a bwyta gydag ystod amrywiol o bobl, mewn lleoliad fforddiadwy, cyfforddus a chynhwysol

Cymru Wledig lle mae chwaraeon yn cael eu defnyddio i gefnogi a chynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg



Hwyluso ymchwil weithredu dan arweiniad y gymuned

Jessie Buchanan a Amy Nicholass

Mae partner strategol Cymru Wledig LPIP Cymru Wledig, Gyda'n Gilydd dros Newid (gweler proffil partner ar dudalen 14), yn cyd-ddylunio prosiectau ymchwil dan arweiniad y gymuned ledled Cymru, gan gydweithio â phrosiectau a sefydliadau lleol i fynd i'r afael â'r heriau a nodwyd fel blaenoriaethau gan y cymunedau hynny eu hunain.

Enghreifftiau o Brosiectau Ymchwil Weithredu dan Arweiniad y Gymuned:



Biosffer Dyfi – Sgrechian a Socian

Mae'r prosiect hwn yn cael ei arwain gan sefydliad y trydydd sector, Biosffer Dyfi, sy'n cynnal tîm cynllunio prosiect sy'n cynnwys prosiectau dan arweiniad y gymuned sy'n bodoli eisoes sef Lab Dŵr Dyffryn Dyfi a Phrosiect Gwenoliaid Duon Biosffer Dyfi. Gwahoddodd Biosffer Dyfi syniadau ymchwil, a daeth dau grŵp ymlaen gyda chynigion a gafodd eu cyfuno wedyn yn y prosiect 'Sgrechian a Socian' i edrych ar y berthynas rhwng ansawdd dŵr, nifer y pryfed, a phresenoldeb gwenoliaid duon. Penderfynodd y tîm cynllunio prosiect i wario rhywfaint o'r gyllideb a ddarparwyd gan Cymru Wledig LPIP Rural Wales ar logi Cydlynnydd Ymchwil rhan-amser a ddechreuodd ganol mis Ebrill a bydd yn cefnogi'r tîm i gyflwyno'r ymchwil tan ganol Awst 2025 pan mae'r ymchwil i fod i gael ei chwblhau.

Corwen – Anghenion Trafnidiaeth

Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych, sefydliad y trydydd sector, sy'n arwain y prosiect hwn ac yn rheoli'r prosiect yn fewnol. Yn dilyn eu hymgyngoriad eu hunain, maent wedi dewis archwilio'r thema ymchwil o 'angen trafndiaeth' mewn ardal lle nad oes darpariaeth trafndiaeth gymunedol ar hyn o bryd. Mae'r tîm wedi gweithio gyda'u mentor academaidd i ddylunio a threialu arolwg dwyieithog ar-lein a phapur trwy'r post sydd wedi'i ddosbarthu i'r boblogaeth wledig berthnasol. Maent hefyd wedi cyfweld â defnyddwyr presennol y gwasanaeth trafndiaeth gymunedol i archwilio ei effaith ar eu llesiant, lle mae eisoes ar gael. Dros yr haf, bydd y tîm yn dadansoddi eu hymatebion i'r arolwg gyda chefnogaeth eu mentor academaidd, yn derbyn hyfforddiant dadansoddi thematig ac yn cynnal cyfweiliadau dilynol.

Penrhyn Dewi – Cynefin

Enw'r prosiect ym Mhenrhyn Dewi yw 'Cynefin', a'r thema gyffredinol yw archwilio economi'r ardal. Mae tîm cynllunio ymchwil weithredol gydag unigolion ymroddedig sy'n gynrychiolwyr sefydliadau'r trydydd sector, cynghorau cymuned, y Cyngor Sir, a'r Gymdeithas Twristiaeth a Masnach. Penderfynodd y tîm ddefnyddio rhywfaint o'u cyllideb prosiect i gyflogi Cydlynnydd Ymchwil Gymunedol llawrydd rhan-amser o fis Mawrth tan fis Mehefin, sydd wedi recriwtio ymchwilwyr o'r gymuned i gynnal dadansoddiad o ddata eilaidd, yn dilyn cynllun a gynlluniwyd dan arweiniad eu mentor academaidd. Bydd y dadansoddiad data eilaidd yn llywio cam nesaf yr ymchwil.



“

Mae tîm Cymru Wledig LPIP Rural Wales wedi bod o gymorth mawr wrth ddarparu adnoddau ac ysbrydoli grwpiau gwirfoddol i ehangu eu gwaith ymchwil. Mewn partneriaeth â Biosffer Dyfi, Lab Dŵr Dyffryn Dyfi a Phrosiect Gwenoliaid Duon Biosffer Dyfi, mae Cymru Wledig LPIP Rural Wales wedi bod yno bob cam o'r gwaith o ddatblygu cynllun ymchwil effeithiol. Mae'r prosiect Sgrechian a Socian wedi partneru â mentoriaid academiaidd i freinio'r gwaith o gasglu llinell sylfaen werthfawr o ddata a fydd yn sbardun i ymchwil bellach

James Cass, Biosffer Dyfi

“

Mae Cymru Wledig LPIP Rural Wales wedi fy nghefnogi i wella fy sgiliau ymchwil a chanolbwyntio fy ymchwil i gyfeiriad mwy defnyddiol. Rwy'n gobeithio y bydd canlyniadau'r ymchwil hon yn cael eu defnyddio i helpu i lywio datblygiad Partneriaeth Gymunedol De Sir Ddinbych a pholisi Llywodraeth Cymru yn y dyfodol.

Sian Dixon ym Mhartneriaeth
Gymunedol De Sir Ddinbych

Sicrhau'r cysylltiadau

Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn lansio yn y Senedd

Lansiwyd Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn ffurfiol yn y Senedd ym mis Gorffennaf 2024, o flaen cynulleidfa o academyddion, ymchwilwyr, gwleidyddion, gwneuthurwyr polisi, ac arbenigwyr sector. Gan nodi gweledigaeth y prosiect, rhannodd y digwyddiad uchelgeisiau Cymru Wledig LPIP Rural Wales i greu newid cadarnhaol, cyfrannu'n weithredol at ddatblygu polisiau newydd, a dod ag atebion newydd i'r heriau sy'n wynebu cymunedau yng nghefn gwlad Cymru. Fel y nododd yr Athro Michael Woods gerbron y rhanddeiliaid: "Bydd ein gwaith yn canolbwyntio ar atebion. Dydyn ni DDIM yn gwneud ymchwil dim ond er mwyn gwneud ymchwil, ond er mwyn gwneud gwahaniaeth."



Aelodau Seneddol yn dysgu am bobl ifanc cefn gwlad

Ym mis Ionawr 2025, cymerodd yr Athro Michael Woods a Rhian Curtis (Swyddog Ymgysylltu) ran yn 'Wythnos Dystiolaeth' yn San Steffan, digwyddiad blynyddol a drefnir gan Sense about Science i gyflwyno'r ymchwil ddiweddaraf i wleidyddion. Cawsant gyfarfod â saith AS, yn ogystal ag aelodau o Dŷ'r Arglwyddi, ymchwilwyr seneddol, a newyddiadurwyr, gan rannu canlyniadau arolwg o bobl ifanc yng nghefn gwlad Cymru ac argymhellion ar gyfer mynd i'r afael ag allfudo



pobl ifanc. Buont hefyd yn briffio cyfranogwyr ar Cymru Wledig LPIP Rural Wales, gan arwain at sawl cyfarfod dilynol gydag ASau ac aelodau o Dŷ'r Arglwyddi

i drafod sut gall yr LPIP gefnogi eu gwaith a llywio polisi. Hwyluswyd y cyfle i gymryd rhan yn yr Wythnos Dystiolaeth gan Rwydwaith Arloesi Cymru (WIN).

O Auckland i Fethesda

Croesawodd cydweithwyr Cymru Wledig LPIP Rural Wales ym Mangor a Chaerdydd Dr Mark Harvey o Brifysgol Auckland Waipapa Taumata Rau ym mis Ebrill 2025. Mae Dr Harvey yn artist ac ymchwilydd, ac mae ei waith yn Seland Newydd yn canolbwyntio ar ddefnyddio ymarfer artistig i gysylltu â chymunedau a meithrin ymwybyddiaeth y cyhoedd ynghylch materion ecolegol, cyfiawnder cymdeithasol, a safbwyntiau mātauranga Māori cyffredinol cysylltiedig. Treuliodd amser gydag aelodau'r gymuned ym Methesda yn y gogledd yn dysgu am brosiectau datblygu cymunedol a hanes lleol, a'u troi'n berfformiad



artistig. Rhoddodd Mark sgwrs gyhoeddus hefyd, a chynhaliodd weithdy ar sgiliau creadigol yng nghanolfan gelfyddydau Pontio, un o bartneriaid Cymru Wledig LPIP Rural Wales.

Uwchlaw: Dr Harvey ynghyd â myfyrwyr o brosiect BLAS Pontio, a fwynhaodd weithdy yn dysgu sut i ddefnyddio sgiliau creadigol i rannu diarhebion Cymraeg.

Dathlu llwyddiant o'n cyllid hadau corn

Ymunodd Rhian Curtis a Dr Siobhan Maderson (Rheolwr Arloesi) â digwyddiad yn y Senedd ym mis Mawrth 2025 i ddathlu llwyddiant prosiectau a ariennir gan Rwydwaith Arloesi Cymru (WIN). Darparodd WIN y cyllid cychwynnol a alluogodd ymchwilyddwyr a phartneriaid nad ydynt yn brifysgolion i gyd-ddylunio'r cynnig, a

llwyddodd i ennill £5m o gyllid gan UKRI. Roedd y digwyddiad yn gyfle gwych i arddangos gwaith Cymru Wledig LPIP Rural Wales i randdeiliaid gan gynnwys Aelodau'r Senedd, arweinwyr ym maes busnes ac arloesi, ysgogwyr cymunedol, cynrychiolwyr llywodraethau lleol a rhanbarthol, a sefydliadau'r sector cyhoeddus.

Rhannu mewnwelediadau ar fynd i'r afael ag anghydraddoldebau gwledig

Cynullodd Cymru Wledig LPIP Rural Wales banel ar 'Sut beth yw llwyddiant mewn prosiectau i fynd i'r afael ag anghydraddoldebau gwledig' ar gyfer cynhadledd Cyllid Cyhoeddus Cymru ym mis Tachwedd 2024, gyda CIPFA (Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth). Trafododd y panel y gwahanol safbwyntiau ar

'llwyddiant' mewn prosiectau datblygu gwledig gyda chynulleidfau o swyddogion cyllid llywodraeth leol. Trafododd yr Athro Michael Woods ymchwil LPIP ar ganfyddiadau o dwf yn yr economi wledig, tra rhannodd Jessie Buchanan ganfyddiadau o waith Gyda'n Gilydd dros Newid ar sut mae cymunedau'n gwerthuso llwyddiant mewn prosiectau.

Sylw yn y cyfryngau

Cyfeiriodd Catherine Fookes (Aelod Seneddol Sir Fynwy) at ymchwil gan yr Athro Michael Woods ar dai gwledig a mudo ieuenctid ar sioe newyddion gwleidyddiaeth ITV Cymru *Sharp End* ym mis Ionawr 2025. Soniwyd am yr un ymchwil yn Nhŷ'r Cyffredin gan Ann Davies (Aelod Seneddol Caerfyrddin) ac fe'i rhannwyd gan David Chadwick (Aelod Seneddol Aberhonddu, Maesyfed a Chwm Tawe) ar ei dudalen Facebook.

Ymddangosodd Dr Lucy Baker a Dr Ellen Hjort yn y Cambrian News lle tynnwyd sylw at eu harolwg yn archwilio gwydnwch cymunedau Cymreig ym mis Ionawr 2025.

Sbotolau ar bartneriaid: Gyda'n Gilydd dros Newid

Mae Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn bartneriaeth rhwng prifysgolion, mentrau cymdeithasol, grwpiau preswylwyr ac ymgyrchwyr lleol, busnesau, a phartneriaid polisi sy'n archwilio sut y gall ymchwil ac arloesi helpu i ddod o hyd i atebion i'r heriau sy'n wynebu Cymru Wledig.

Un partner o'r fath yw'r sefydliad 'Gyda'n Gilydd dros Newid'. Mae'r Cyfarwyddwr Jessie Buchanan yn rhannu ethos y sefydliad, a sut mae'n mynd ati i ymgysylltu â'r gymuned:

Mae Gyda'n Gilydd dros Newid yn fusnes cymdeithasol sy'n cysylltu gweithredu dan arweiniad y gymuned, ymchwil a pholisi i sicrhau bod lleisiau cymunedol yn cael eu clywed gan y rhai sy'n gwneud penderfyniadau, a bod sefydliadau ar lawr gwlad yn derbyn y gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i ffynnu. Yng Nghymru, mae gweithredu a arweinir gan y gymuned yn tyfu, gan adeiladu ar hanes cyfoethog o gydweithio ac ymgysylltu lleol. Mae Gyda'n Gilydd dros Newid yn credu pan fydd cymunedau'n arwain, mae modd lleihau anghydraddoldebau, cryfhau cyfiawnder cymdeithasol, a gall pobl fyw'n dda.

Mae Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn cyflwyno cyfle cyffrous i gydweithio ar raglen genedlaethol arloesol sy'n cyd-fynd â'n gwerthoedd sef ymchwil, polisi, ac ymarfer, gan weithio gyda'n gilydd i greu newid parhaol i gymunedau gwledig yng Nghymru.

Ein ffocws yw meithrin gallu a hyder cymunedau gwledig i lunio eu dyfodol eu hunain trwy ymchwil. Mae dulliau ymchwil weithredol dan arweiniad y gymuned yn datblygu prosiectau sydd â'u gwreiddiau'n lleol sy'n mynd i'r afael â heriau a nodwyd yn lleol. Rydym wedi gweld pa mor angerddol yw pobl am eu cymuned a'r wybodaeth sy'n bodoli i fynd i'r afael â rhai o'r heriau mwyaf dybryd, fel trafnidiaeth wledig neu effaith nifer uchel o ymwelwyr mewn rhanbarthau poblogaidd gyda thwristiaid. Mae'r gwaith yn esblygu'n gyson, ac rydym yn cael ein hysbrydoli'n barhaus gan greadigrwydd a blaengaredd pobl a chymunedau sy'n benderfynol o wneud dyfodol gwell iddyn nhw eu hunain a chenedlaethau'r dyfodol.

Partneriaid Cymru Wledig LPIP Rural Wales:

- Prifysgol Aberystwyth
- Prifysgol Bangor
- Prifysgol Caerdydd
- CCRI, Prifysgol Swydd Gaerloyw
- Antur Cymru
- Canolfan y Dechnoleg Amgen
- DEG: Datblygu Egni Gwledig
- Represent Us Rural
- Iechyd a Gofal Gwledig Cymru
- Sgema Cyf
- Gyda'n Gilydd dros Newid



“

Sylwadau terfynol gan Yr Athro Terry Marsden (Cadeirydd y Bwrdd Cynghorol Allanol).

Mae angen polisi datblygu cymunedau gwledig ar Gymru sy'n cydweithredol, nodedig a rhagweithiol, sy'n annog ac yn cefnogi gweithredoedd a phartneriaethau cymunedol lleol amrywiol ac yn seiliedig ar le i gyflawni nodau datblygu cynaliadwy. Mae Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn bartneriaeth ymchwil ac arloesi allweddol sydd bellach wedi cwblhau ei flwyddyn gyntaf o weithgareddau sylfaenol ar draws nifer o brosiectau lleol ledled Cymru, ac mewn partneriaeth â rhanddeiliaid amrywiol lleol. Mae'n bartneriaeth sydd wir yn ateb problemau ac yn canolbwyntio ar ddatrysiadau mewn

ffordd adnewyddol. Yn ei flwyddyn gyntaf mae Cymru Wledig LPIP Rural Wales wedi gosod sylfaenau cryf trwy nifer o brosiectau ymchwil arloesol sy'n seiliedig ar le. Wrth rhannu arferion gorau arloesol, darganfod ffyrdd o wella a rhoi pŵer i gymunedau lleol, ac adeiladu cymunedau cadarn cam wrth gam, mae'r dull ymchwil cymwys yma yn dangos allbynnau llwyddianus a tharged problemau. Mae Cymru Wledig LPIP Rural Wales eisioes wedi dechrae, a mi fydd yn parhau i ddatblygu cysylltiadau a dieithriadau cryf gyda gwneuthurwyr polisi ar lefydd lleol, Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wrth drosglwyddo gwybodaeth angenrheidiol er mwyn codi cyfle cyfansawdd Cymru Wledig ar gyfer ei phobl, ei wasanaethau a'i busnesau.





Funded by



Hosted by



Core Partners



Y rhwydwaith LPIP: rhannu arferion gorau

Mae Cymru Wledig LPIP Rural Wales yn un o bedair Partneriaeth Polisi ac Arloesi Lleol (LPIP) a ariennir gan UKRI, corff cyllido ymchwil Llywodraeth y DU, mewn buddsoddiad mawr i gryfhau cyfnewid gwybodaeth ar gyfer polisi seiliedig ar le. Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys EPIC Futures yng Ngogledd Iwerddon, FORTH2O yn yr Alban, a'r Yorkshire Policy Innovation Partnership (YPIP) yn Swydd Efrog a Humberside. Mae'r Partneriaethau'n gweithio'n agos gyda'i gilydd i rannu gwersi a phrofiad a syntheseiddio canfyddiadau, gyda chefnogaeth yr Hwb LPIP ym Mhrifysgol Birmingham.

Ym mis Mawrth 2025, croesawodd Cymru Wledig LPIP Rural Wales gydweithwyr o'r Partneriaethau eraill a'r

Hwb i Gaerdydd ar gyfer eu cyfarfod chwarterol. Roedd yr agenda yn canolbwyntio ar weithio gyda chymunedau, gan gynnwys dosbarth meistr dan arweiniad Gyda'n Gilydd dros Newid ar 'Sut ydyn ni'n gweithio gyda chymunedau i gyflawni newid?', sesiwn rhannu a symud i ddysgu am sut mae'r Partneriaethau a phrosiectau cysylltiedig yn ymgysylltu â chymunedau, a thrafodaethau bord gron ar faterion ymarferol. Roedd y digwyddiad yn gyfle gwych i ddatblygu sgiliau newydd, nodi arferion cydweithredol newydd, a sicrhau y bydd cyd-ddylunio prosiectau ochr yn ochr â'n partneriaid cymunedol yn esgor ar fanteision cynhwysol a chynaliadwy.



CYMRU WLEDIG
LPIP
RURAL WALES

